

Canllawiau i Rieni ar Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Rydym yn gobeithio y bydd y daflen wybodaeth hon yn eich helpu i gael gwell dealltwriaeth o Adolygiadau Plentyn sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys yr hyn sy'n digwydd yn y cyfarfodydd adolygu, lle maent yn digwydd, pwy all fynychu a pha ran y gallwch chi ei chwarae ynddo.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn sydd heb eu hateb yn y daflen wybodaeth hon, neu os nad ydych chi'n deall unrhyw beth, fe fydd Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant yn gallu eich helpu.

Beth yw Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal?

Mae adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn cael ei gynnal i siarad am eich plentyn a'u cynnydd tra byddant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r adolygiad yn dwyn ynghyd y bobl hynny sy'n rhan o fywyd eich plentyn ac yn gyfle i: -

- Adolygu Cynllun Gofal eich plentyn – mae'r ddogfen yn nodi sut y bydd eich plentyn yn cael gofal.
- Trafod cynnydd eich plentyn.
- Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol.
- Eich galluogi i roi eich barn ar gynlluniau eich plentyn ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau am eu dyfodol.

Beth yw Cynllun Gofal fy mhleintyn?

Mae'n rhaid i bob plentyn sy'n derbyn gofal gael Cynllun Gofal sy'n cael ei adolygu o fewn eu cyfarfod adolygu. Mae'n ddogfen sy'n rhoi manylion anghenion eich plentyn a sut y byddant yn cael eu diwallu. Bydd hyn yn cynnwys ble maent yn byw, cyswllt â theulu a ffrindiau, eu hanghenion diwylliannol, crefyddol, iechyd, addysgol a hamdden. Bydd copi o Gynllun Gofal eich plentyn yn cael ei roi i chi, ei ofalwr a'ch plentyn (yn dibynnu ar eu hoedran).

Pa mor aml mae cyfarfodydd adolygu yn digwydd?

Rhaid i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y bydd eich plentyn yn dechrau bod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Os yw eich plentyn yn parhau i dderbyn gofal, mae'n rhaid cael ail adolygiad dim mwy na thri mis ar ôl hynny. Yna bydd yn rhaid cynnal adolygiadau o leiaf bob chwe mis, neu'n amlach os oes angen hynny.

Pwy fydd yn y cyfarfodydd adolygu?

- Eich plentyn, os ydynt yn ddigon hen ac yn deall beth sy'n digwydd.
- Chi eich hun ac unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb rhiant (oni bai bod rheswm penodol pam na allwch fynychu).
- Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn.
- Gofalwr Maeth neu Weithiwr Preswyl eich plentyn.

Weithiau mae gweithwyr proffesiynol eraill yn bresennol, er enghraifft athro eich plentyn neu rywun o iechyd, fel Ymwelydd Iechyd neu Nyrs yr Ysgol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan mae problem i'w datrys. Fodd bynnag, rydym yn ceisio cyfyngu ar bresenoldeb pan fyddwn yn gwybod y bydd plant yn mynychu eu hadolygiadau, fel eu bod yn teimlo'n fwy abl i siarad yn agored.

Mewn achosion eithriadol, ni fydd rhieni a chefnogwyr y plentyn yn cael caniatâd i ddod i'r cyfarfod. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol a Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn gwneud y penderfyniad hwn gyda'i gilydd ac yn esbonio'r rhesymau pam.

Beth yw Swyddog Adolygu Annibynnol?

Mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn Weithiwr Cymdeithasol profiadol ac yn annibynnol o Gwasanaethau Addysg a Phlant. Eu rôl nhw yw cadeirio'r cyfarfod adolygu ac i weld bod pawb yn cael eu trin yn deg yn y cyfarfod a bod yr holl faterion pwysig yn cael eu trafod. Bydd ef neu hi hefyd yn cymryd golwg annibynnol ar yr hyn sy'n digwydd i'ch plentyn.

Ble mae'r cyfarfodydd adolygu yn cael eu cynnal?

Weithiau mae adolygiadau'n cael eu cynnal yn Swyddfeydd y Cyngor, yn yr Ysgol neu leoliad mae pawb yn cytuno arno gyda'ch plentyn, os yw'n oedran priodol.

Gall fod yn briodol mewn llawer o achosion i gynnal yr adolygiad yn lleoliad eich plentyn fel y gall pawb sy'n mynychu weld lle maent yn byw a chwrrd â'r gofalwyr.

Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod adolygu?

Yn y cyfarfodydd adolygu, rydym yn sôn am yr hyn y gall pawb ei wneud i sicrhau bod eich plentyn yn ddiogel, yn iach ac yn hapus a'n bod yn gweithio tuag at gael lle sefydlog yn y tymor hir iddynt fyw. Byddwn yn gweld a gafodd unrhyw beth ei awgrymu ar gyfer eich plentyn mewn adolygiad blaenorol, os cafodd yr awgrym ei weithredu ac a oes unrhyw beth mwy sydd angen ei wneud. Rydym yn cytuno pa gamau sydd angen eu cymryd a gan bwy.

Yn y cyfarfod, bydd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar:-

Iechyd - i wirio bod gan eich plentyn ffordd o fyw iach a bod eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu er mwyn sicrhau eu bod yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol iach. Os oes gan eich plentyn anghenion arbennig neu anabled, bydd yr adolygiad hefyd yn ymdrin â sut y bydd yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

Cadw'n Ddiogel - i alluogi eich plentyn i fwynhau amgylchedd diogel a chael eu diogelu rhag camdriniaeth, ecsbloetio ac ofn troseddau.

Mwynhau a chyflawni - bydd yr adolygiad yn edrych ar y gefnogaeth yn ei lle ar gyfer datblygu ac addysg eich plentyn fel y gallant gyflawni eu potensial a'u huchelgeisiau, ac er mwyn iddynt fwynhau bywyd, er enghraifft trwy weithgareddau hamdden.

Gwneud cyfraniad cadarnhaol - yn dibynnu ar ei h / oed, bydd eich plentyn yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am ei d / ddyfodol.

Symud tuag at annibyniaeth, hyfforddiant a chyflogaeth - ar gyfer plant hŷn, bydd yr adolygiad yn ystyried sut maent yn cael eu cefnogi i fynd i addysg bellach, hyfforddiant neu swydd ac os ydynt yn cael cymorth gyda sgiliau i fod yn oedolyn ifanc annibynnol.

Diwylliant, ethnigrwydd a chrefydd - bydd angen ystyried anghenion y plentyn o ran ei hunaniaeth grefyddol a diwylliannol.

Cyswllt - bydd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer cyswllt eich plentyn gyda'i deulu / theulu a phobl eraill sy'n bwysig iddyn nhw.

Statws Cyfreithiol - efallai y bydd eich plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar sail wirfoddol (gan gynnwys pan mae hyn ar gyfer seibiannau byr) neu oherwydd Gorchymyn Llys. Os oes angen newid y statws cyfreithiol hwn, bydd yr adolygiad yn ystyried hyn.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cytunir ar ddyddiad yr adolygiad nesaf.

Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn sicrhau bod y cyfarfod mor gyfeillgar a hamddenol i blentyn ag y bo modd, fel bod eich plentyn yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddigon diogel i gyfrannu.

Mae'n bwysig, os ydych yn mynychu'r adolygiad, i ystyried yn ofalus yr hyn yr hoffech ei ddweud yn y cyfarfod.

Er mwyn helpu i gael eich barn, mae ffurflen ymgynghori yn cael ei hanfon allan gyda'ch gwahoddiad i'r adolygiad ac rydym yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen ac naill ai ddod â hi gyda chi i'r adolygiad, neu os na allwch fynychu, ei hanfon yn ôl i'r Swyddog Adolygu Annibynnol.

Ar ôl yr adolygiad

Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cwblhau cofnodion y cyfarfod adolygu sy'n cofnodi'r argymhellion a wnaed ac yn gwneud yn siŵr bod y camau y cytunwyd arnynt yn cael eu cwblhau. Byddwch yn cael copi o'r cofnodion.

Beth fydd yn digwydd os na allwch fynychu adolygiad eich plentyn?

Os nad ydych yn gallu dod i'r adolygiad, llenwch y ffurflen ymgynghori a anfonwyd atoch gyda'ch gwahoddiad i'r adolygiad a'i dychwelyd at y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Seibiannau Byr

Os yw eich plentyn yn cael Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal oherwydd eu bod yn aros gyda Gofalwyr Maeth neu mewn Cartref Plant ar gyfer gwyliau byr, bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal o fewn tri mis i ddechrau'r seibiannau byr. Bydd adolygiadau pellach yn cael eu cynnal o leiaf bob chwe mis wedyn. Bydd yr adolygiadau hyn yn trafod sut mae lleoliad eich plentyn ac os mai hyn yw'r trefniant gorau i gefnogi eich teulu.

Beth os ydw i am i'r adolygiad gael ei gynnal yn Gymraeg neu unrhyw iaith arall?

Os felly, cysylltwch â Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn neu'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn gynted â phosibl fel y gellir gwneud trefniadau. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn deall sut rydych yn teimlo ac yn gwybod beth sydd wedi bod yn digwydd.

Cwynion

Os ydych am wneud awgrym, canmoliaeth neu gŵyn am unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:-

Rhif rhadffôn:	0800 032 1099	E-bost:	ssdcomments@denbighshire.gov.uk
Ysgrifennwch at:	Swyddog Cwynion Ty Russell Ffordd Churton Y Rhyl Sir Ddinbych LL18 3DP	We:	sirddinbych.gov.uk/eichllais

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.